AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Streic y Glowyr |
1984-1985

# Streic y Glowyr | Nodiadau canllaw

## Cyflwyniad |

***Cyfres o ddelweddau ar thema neu bwnc penodol yw'r adnodd 'Banc Lluniau'.***

*Yn y set hon mae delweddau'n ymwneud â Streic y Glowyr 1984-85 yng Nghymru. Mae'r delweddau wedi'u dewis o gasgliad Amgueddfa Cymru.*

*Mae'r cydraniad yn ddigon uchel i ddefnyddio'r delweddau fel adnoddau bwrdd gwyn. Yn y nodiadau athrawon mae gwybodaeth gefndir, dehongliad o'r delweddau, deilliannau dysgu posib a manylion darllen pellach ac adnoddau ar-lein.*

*Gall yr adnodd gael ei lawrlwytho ac nid yw ar gyfer unrhyw oedran na cham cynnydd penodol. Rydyn ni'n annog defnyddwyr i ddarllen y nodiadau a golygu'r adnoddau i weddu orau i'w hanghenion.*

## Gwybodaeth Gefndir |

*Erbyn yr 1980au, roedd diwydiant glo Prydain gyda'r mwyaf diogel ac effeithlon yn y byd. Ond roedd llywodraeth Geidwadol newydd Margaret Thatcher am wneud diwydiant yn fwy effeithlon drwy leihau'r hyn roedden nhw'n eu ystyried yn ddiwydiannau amhroffidiol. Dan ei harweinyddiaeth hi cafodd llawer o hen ddiwydiannau cenedlaethol – nwy, dŵr a'r rheilffyrdd er enghraifft – eu trosglwyddo i reolaeth y sector preifat (preifateiddio). Roedd hi hefyd am wanhau grym yr undebau llafur a oedd, yn ei barn hi, wedi tyfu'n rhy bwerus.*

*Erbyn 1979 roedd 235,000 o ddynion yn gweithio mewn 223 o byllau glo ar draws y DU. Erbyn 1983, roedd hyn wedi gostwng i 182,000 mewn 175 o byllau. Roedd dirwasgiad diwedd y saithdegau a dechrau'r wythdegau hefyd wedi niweidio diwydiannau eraill yng Nghymru.*

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Streic y Glowyr | 1984-1985

# Streic y Glowyr | Nodiadau canllaw

## Gwybodaeth Gefndir |

*Felly, roedd diweithdra yn y De eisoes dros 13% – llawer uwch na chyfartaledd y DU.*

*Teimlai llawer o lowyr a'u teuluoedd nad oedd ganddyn nhw ddewis ond ymladd dros yr hawl i weithio, a dyfodol eu cymunedau.*

*Nid brwydr syml rhwng y llywodraeth ac Undeb y Glowyr (NUM) oedd y streic. Weithiau byddai cymunedau cyfan yn cael eu rhannu rhwng glowyr oedd am weithio a'r rhai a oedd ar streic. Roedd y penderfyniad i beidio â chynnal pleidlais ar streicio yn rhoi rheswm i rai glowyr barhau i fynd i'r gwaith. Er mwyn atal hynny byddai 'Flying Pickets' Undeb y Glowyr yn teithio i byllau glo ymhell o'u man gwaith arferol i berswadio cydweithwyr oedd am weithio i beidio â chroesi'r llinell biced.*

*Byddai heddlu ar ddyletswydd i sicrhau bod y glowyr oedd am weithio yn gallu cyrraedd y gwaith. Mae streic y glowyr yn aml wedi cael ei gweld fel rhyfel rhwng yr heddlu a phicedwyr er gwaetha'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r picedu'n drefnus a heddychlon.*

*Ym mis Mawrth 1985 aeth bron i 20,000 o lowyr y De yn ôl i'r gwaith. Roedd anobaith, tlodi a rhwystredigaeth i gyd wedi cyfrannu at y pwysau i ddychwelyd.*

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*Sleidiau 2-5 | Mae'r delweddau hyn yn rhoi syniad o sut olwg oedd ar byllau glo Cymru yn yr 1980au, ar yr wyneb a danddaear.*

***Siafft aer Glofa Merthyr Vale, 1980***
***Glofa Penallta,1984***
***Ffordd danddaearol yng Nglofa Merthyr Vale, 1981***
***Glöwr a merlyn pwll danddaear, Cwm Nedd, 1993***

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Streic y Glowyr | 1984-1985

amgueddfa.cymru/dysgu/
museum.wales/learn/

# Streic y Glowyr | Nodiadau canllaw

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*Sleid 6 | Sgan o daflen wedi'i hargraffu gan Undeb y Glowyr yn nodi'r rhesymau'r Undeb dros streicio.*

***Taflen wreiddiol gan Undeb y Glowyr yn nodi'r rhesymau dros y streic, 1983***

*Sleidiau 7-11 | Mae'r delweddau hyn yn dangos llinellau piced mewn sawl glofa, ynghyd â rhesi o heddlu yn eu hwynebu. Nid brwydr syml rhwng y llywodraeth ac Undeb y Glowyr (NUM) oedd y streic. Weithiau byddai cymunedau cyfan yn cael eu rhannu rhwng glowyr oedd am weithio a'r rhai a oedd ar streic. Roedd y penderfyniad i beidio â chynnal pleidlais ar streicio yn rhoi rheswm i rai glowyr barhau i fynd i'r gwaith. Er mwyn atal hynny byddai 'Flying Pickets' Undeb y Glowyr yn teithio i byllau glo ymhell o'u man gwaith arferol i berswadio cydweithwyr oedd am weithio i beidio â chroesi'r llinell biced. Byddai heddlu ar ddyletswydd i sicrhau bod y glowyr oedd am weithio yn gallu cyrraedd y gwaith. Mae streic y glowyr yn aml wedi cael ei gweld fel rhyfel rhwng yr heddlu a phicedwyr er gwaetha'r ffaith bod y rhan fwyaf o'r picedu'n drefnus a heddychlon.*

***Yr heddlu yng Nglofa Nantgarw, 1984***
***Llinell biced yng Nglofa Penallta, 1984***
***'Archwiliad Esgidiau', Ffatri Phurnacite Aberaman, 1984***
***Yr heddlu yng Nglofa Nantgarw, 1984***
***Yr heddlu yng Nglofa'r Cwm, 1984***

*Sleid 12 | Mae'r daflen hon o Streic y Glowyr ym 1984 yn defnyddio iaith a delwedd anghydfod chwerw cynharach yng Nghwm Garw ym 1929 i leisio barn ar bobl oedd yn torri'r streic yn ystod Streic y Glowyr ym*

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Streic y Glowyr |
1984-1985



# Streic y Glowyr | Nodiadau canllaw

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*1984. Mae'r defnydd o iaith fel bradwyr, sgabs, blaclegs, cyfeiriadau Beiblaidd, a'r llun o heddlu'n gorymdeithio yn ei gwneud hi'n gwbl glir i'r darllenydd sut oedd y rhai wnaeth dorri'r streic yn 1984 yn cael eu gweld.*

***Taflen Undeb y Glowyr, 1984***

*Sleidiau 13-15 | Mae'r delweddau hyn yn dangos gorymdeithiau a drefnwyd ledled Cymru yn ystod y streic. Roedd gorymdeithiau mawr yn wahanol i linellau piced – yn lle atal gwaith rhag digwydd yn y pyllau, y bwriad oedd cadw'r frwydr yn llygad y cyhoedd fel bod pobl yn gwybod pam roedden nhw'n ymladd a'u bod nhw'n dal ati.*

***Gorymdaith cangen Undeb y Glowyr, Blaenau Ffestiniog, 1984***
***Gorymdaith y Glowyr, Heol y Frenhines, Caerdydd, 1984***
***Gorymdaith cangen Undeb y Glowyr Abernant a'r Blaid Lafur, Blaenau Ffestiniog, 1984***

*Sleidiau 16-18 | Mae'r delweddau hyn yn dangos pobl a grwpiau yn trefnu gweithgareddau codi arian i helpu i ddarparu bwyd, dillad ac arian i weithwyr ar streic. Dyw gweithwyr ar streic ddim yn ennill arian, a byddai'r bobl a'r grwpiau hyn yn codi arian, sefydlu canolfannau bwyd, darparu dillad a rhedeg ceginau cawl.*

***Glöwr wedi ymddeol yn casglu rhoddion bwyd y tu allan i siop Co-op Maesteg, 1985***
***Poster yn hysbysebu gorymdaith a rali, 1984***
***Poster yn hysbysebu gorymdaith a rali, 1984***

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Streic y Glowyr |
1984-1985

# Streic y Glowyr | Nodiadau canllaw

## Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*Sleidiau 19-21 | Mae'r delweddau hyn yn dangos bathodynnau gafodd eu creu i gefnogi'r streic. Fel gorymdeithiau roedd bathodynnau yn ffordd wych o gael cefnogaeth i'r streic. Byddai pob cangen yn creu sticeri a bathodynnau – rhai i'w rhannu am ddim a rhai i'w gwerthu i godi arian. Roedd bathodynnau yn dal i gael eu cynhyrchu ar ôl y streic i godi arian i'r gweithwyr.*

***Taflen Undeb y Glowyr, 1984***
***Glöwr anhysbys gyda bathodynnau, 1985***
***Bathodyn streic gafodd ei werthu am £1 i helpu glowyr wedi'u diswyddo, Bathodyn Streic Cangen y Cwm, 1986***

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Streic y Glowyr | 1984-1985

# Streic y Glowyr | Nodiadau canllaw

## Dadl |

*Mae'r 'Banc Lluniau' yn dangos pobl a llefydd yr effeithiodd y streic yn uniongyrchol arnyn nhw, ac yn canolbwyntio'n gyffredinol ar genfogwyr y streic. Ond doedd pawb ddim yn cefnogi'r streic.*

*Gallwch chi ddefnyddio'r dadleuon 'o blaid ac yn erbyn' isod i gael dadl ar y ddwy ochr. Mae hon yn ffordd wych o gyfleu'r ddwy ochr a thrafod yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu o'r delweddau a'r wybodaeth.*

**6 dadl o blaid cau |**

Mae olew, nwy naturiol ac ynni niwclear i gyd yn rhatach na glo ar gyfer cynhyrchu trydan.

Dyw'r diwydiant glo heb wneud elw ers dros 40 mlynedd.

Mae hi'n rhatach mewnforio glo o dramor na chloddio ym Mhrydain.

Does dim synnwyr economaidd i bobl Prydain roi cymhorthdal i ddiwydiant oedd yn gwneud colled.

Gallai cau pyllau glo aneffeithlon ddiogelu dyfodol y pyllau fyddai ar ôl.

Ddylai pobl ddim disgwyl i'r llywodraeth amddiffyn eu swyddi a'u bywoliaeth.

**6 dadl yn erbyn cau |**

Bydd cau'r pyllau yn creu diweithdra enfawr.

Fel arfer does dim diwydiant mewn ardaloedd glofaol – fydd gan lowyr di-waith a'u plant ddim g obaith canfod gwaith newydd.

Mae cronfeydd helaeth o lo danddaear – rhaid gweithio'r pyllau beth bynnag y gost.

Mae pwll glo yn ganolog i'r gymuned – mae cau pwll yn lladd cymuned.

Yn syml, cau'r pyllau yw ffordd y Ceidwadwyr o ddial ar y glowyr am drechu'r llywodraeth Geidwadol yn 1974.

Dylai'r llywodraeth ddiogelu a sicrhau dyfodol hirdymor adnoddau naturiol pwysig y wlad.

**AMGUEDDFA CYMRU**
**Banc Lluniau**

**Streic y Glowyr | 1984-1985**

# Streic y Glowyr | Nodiadau canllaw

## Geirfa allweddol |

**Streic**
*Casgliad o weithwyr sy'n trefnu fel protest i wrthod gweithio, fel arfer i geisio cael consesiwn neu gonsesiynau gan eu cyflogwr.*

**Glofa**
*Pwll glo.*

**Pwll drifft**
*Pwll glo gyda mynediad drwy dwnnel, nid siafft.*

**Flying Pickets**
*Streicwyr sy'n cael eu hanfon i bicedu pyllau ymhell o'u man gwaith arferol.*

**NCB**
*Y Bwrdd Glo Cenedlaethol.*

**NUM**
*Undeb Cenedlaethol y Glowyr.*

**Llinell biced**
*Gweithwyr sy'n ymgasglu y tu allan i fan gwaith i berswadio gweithwyr eraill i gefnogi eu hachos.*

**Sgabs**
*Gweler 'Torwyr streic'.*

**Torwyr streic**
*Gweithwyr sy'n gwrthod streicio neu sy'n dychwelyd i'r gwaith. Yn cael eu hadnabod fel 'sgabs' gan streicwyr, a 'glowyr sy'n gweithio' neu 'glowyr sy'n dychwelyd' gan y cyfryngau a'r Bwrdd Glo Cenedlaethol.*

AMGUEDDFA CYMRU
Banc Lluniau

Streic y Glowyr |
1984-1985

# Streic y Glowyr | Nodiadau canllaw

## Darllen pellach |


*WCCPL & NUM, Striking Back (1985), Gwasg Salesbury*

*Michael Thomas, The Death of an Industry (2004), Colben System Pte. Ltd.*

*John Davies, Hanes Cymru (1990), Penguin*

*D. Gareth Evans, A History of Wales 1906-2000 (2000), Gwasg Prifysgol Cymru*

*W. Gareth Evans, The Role and Changing Status of Women in the Twentieth Century (2000), ACCAC*

*Deirdre Beddoe, Out of the Shadows: A History of Women in Twentieth Century Wales (2000), Gwasg Prifysgol Cymru*

*David Egan, Coal Society: A History of the South Wales Mining Valleys 1840-1980 (1987), Gomer*

*John Gorman, Banner Bright – An Illustrated History of Trade Union Banners (1986), Scorpion Publishing*


## Gwefannau |

*Casgliadau ac Ymchwil Amgueddfa Cymru*

https://amgueddfa.cymru/casgliadau/

*Casgliad y Werin*

https://www.casgliadywerin.cymru/

*Casgliad Maes Glo De Cymru, Prifysgol Abertawe*

http://www.agor.org.uk/cwm/